Mewn perthynas ag athrawon, dylech gynnwys pob athro a adawodd ei swydd, gan gynnwys diswyddiadau gwirfoddol neu orfodol, ymddeoliadau cynnar neu arferol, y rheini a adawodd y proffesiwn neu a adawodd am swydd addysgu arall neu rôl arall ym myd addysg. Gweler y set godau yn [atodiad D](#) am y rhestr lawn. Peidiwch â chynnwys athrawon sydd ar absenoldeb mamolaeth, secondiad neu absenoldeb oherwydd salwch.

Enw'r Maes	Hyd y Maes	Math o Faes	Tag Xml	Data Enghreifftiol	NS	PS	MS	SS	SP	PR
<a href="#">Dynodydd aelod staff a adawodd</a>	2	Alffaniwmerig	<LeaverID>	1	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<a href="#">Rôl yr aelod staff a adawodd</a>	2	Alffaniwmerig	<StaffRole>	QT	✓	✓	✓	✓	✓	✓
<a href="#">Pwnc yr aelod staff a adawodd</a>	3	Alffaniwmerig	<Subject>	ART	✓	✓	✓	✓	✓	✓



Grŵp/grwpiau blwyddyn yr aelod staff a adawodd	2	Alffaniwmerig	<YearGroup>	M	✓	✓	✓	✓	✓	✓
I ble'r aeth yr aelod staff a adawodd	3	Alffaniwmerig	<LeaverDestination>	EDU	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Profiad addysgu	2	Alffaniwmerig	<TeachingExperience>	8	✓	✓	✓	✓	✓	✓

## 7.9 Cyflenwi

Math o ddata: **Hanesyddol**

I'w cynnwys mewn: Datganiadau **ysgol**

Mae'r modiwl hwn yn cynnwys data'r ysgol ar sail grŵp ar gyfer pob gwahanol fath o gyflenwi a gafwyd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (hy rhwng **1 Medi 2023** a **31 Awst 2024**). Dylai pob datganiad **ysgol** gynnwys un cofnod ar gyfer pob cyfuniad o'r canlynol: categori'r staff cyflenwi, p'un a gynlluniwyd y cyflenwi ac am ba mor hir y parhaodd y cyflenwi.

**Peidiwch** â chynnwys:

- athrawon ychwanegol neu symudol sydd dan gcontract blwyddyn neu mwy gydag ysgol neu ysgol arweiniol fel rhan o glwstr;
- athrawon a gyflogir ac a leolir yn uniongyrchol drwy restr pwll cyflenwi awdurdod lleol.

Dylid cynnwys y rhain fel 'athrawon cyflenwi dan gcontract (nid drwy asiantaeth)' yn y data lefel unigol fel rhan o'r datganiad data **ysgol**.

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Tag Xml	Data enghreifftiol	NS	PS	MS	SS	SP	PR
Categori'r staff cyflenwi	4	Alffaniwmerig	<SupplyCategory>	TCHR	✓	✓	✓	✓	✓	✓
A gynlluniwyd y cyflenwi	1	Alffaniwmerig	<SupplyPlanned>	U	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Am ba mor hir y parhaodd y cyflenwi	1	Alffaniwmerig	<SupplyTerm>	S	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Nifer y diwrnodau cyflenwi	10	Alffaniwmerig	<SupplyDays>	100	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyfanswm cost y cyflenwi	10	Alffaniwmerig	<SupplyCost>	1000.00	✓	✓	✓	✓	✓	✓

## 8. Dilysu a chywirow gwallau

Bydd eich meddalwedd yn darparu adroddiad manwl ar y gwallau dilysu a'r ymholiadau dilysu yn eich datganiad. Mae '**gwall**' yn golygu bod nod neu werth anghyfreithlon mewn eitem o ddata, neu anghysondeb rhesymegol rhwng eitemau o ddata neu rhwng gwahanol agweddau ar y datganiad.

Mae dau fath o '**ymholiad**'. Gallant ymwneud ag elfen anarferol yn y data (er enghraifft, nid oes cofnod o rôl y pennaeth wedi'i gynnwys), sy'n awgrymu, ond nid yn profi, bod yna ddata anghywir neu fod data wedi'u hepgor; neu gellir eu defnyddio i dynnu sylw at feysydd lle mae'n ymddangos bod risg arbennig o uchel o hepgor data - er enghraifft nid oes cofnod cwricwlwm wedi'i gynnwys. Mae angen ymchwilio i ymholiad o unrhyw fath er mwyn gweld a oes diffyg cywirdeb neu a oes rhywbeth wedi'i hepgor, er y gellir dod i'r casgliad yn y pen draw bod y data, mewn gwirionedd, yn gywir.

Mae'n hanfodol eich bod yn cywiro cymaint o wallau ag sy'n bosibl cyn cyflwyno eich datganiad i'ch awdurdod lleol, ac yn ddelfrydol eu cywiro i gyd. Mae'n hanfodol hefyd eich bod yn ymchwilio i bob ymholiad ac yn diwygio data lle gwelir eu bod yn anghywir.

**Efallai y bydd datganiadau a fydd yn cynnwys gwallau pan fyddant yn cyrraedd Llywodraeth Cymru yn cael eu gwrthod ac yn gorfod cael eu hailgyflwyno ar ôl eu cywiro.**

Bydd gofyn i'r ysgol gywiro'r gwallau yn eu system gwybodaeth reoli a lanlwytho'r datganiad diwygiedig drwy [DEWi](#), y system trosglwyddo data diogel ar-lein.

**Ni fydd datganiadau'n cael eu haddasu gan Lywodraeth Cymru ar ôl eu cyflwyno drwy [DEWi](#). Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio trothwy gwallau. Yn hytrach bydd yn gwerthuso pob datganiad yn unigol.**

Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gosod trothwy gwallau i'r datganiad y bydd yn ei dderbyn oddi wrthy, a dylech ei holi am hynny.

## 9. Crynodeb yr ysgol

Mae crynodeb yr ysgol yn cael ei greu'n awtomatig gan y feddalwedd. Ei ddiben yw galluogi'r staff sy'n paratoi'r datganiad, a'r pennaeth sy'n ei awdurdodi, i asesu pa mor gywir a chyflawn y mae'n debygol o fod o ystyried bod ffeil y datganiad ei hun yn rhy fawr i allu edrych arni yn ei chyfanrwydd yn hawdd.

Dylid gwirio'r crynodeb yn fanwl, gan dalu sylw arbennig i'r rhannau hynny sydd efallai yn dynodi nad oedd rhywfaint o ddata gweithlu'r ysgol ar lefel unigol wedi'u cynnwys yn eich system cyn creu'r datganiad, er enghraifft:

- Nifer (cyfrif pen a nifer cyfwerth ag amser llawn) y staff yn ôl **rhyw** a phrif **rôl**;
- nifer y staff yn ôl **cymhwyster** perthnasol;
- nifer y staff yn ôl **grŵp ethnig**;
- **statws anabledd** y staff;
- nifer y staff sy'n **gallu siarad Cymraeg**;
- nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu a'r **oriau** addysgu yn ôl **pynciau/grŵp blwyddyn**.

Yn olaf, mae'r crynodeb yn dangos cyfanswm y gwallau a'r ymholiadau yn y datganiad na chawsant eu datrys, gan roi rhyw syniad ynghylch a yw'r datganiad yn debygol o gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Sylwer bod crynodeb yr ysgol yn amrywio yn ôl y math o ysgol ac felly ni fydd pob un o'r enghreifftiau a restrir yn berthnasol i'ch ysgol chi.

## 10. Creu ffeil ddata i'w chyflwyno

### 10.1 Cael gfael ar ddata XML

XML fydd fformat yr estyniad ffeil.

Bydd enw'r ffeil yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- (a) dynodydd tarddiad (7 digid)<sup>3</sup>
- (b) math o arolwg (3 nod)<sup>4</sup>
- (c) dynodydd pen y daith (7 nod)<sup>5</sup>
- (d) rhif cyfres (3 digid)<sup>6</sup>

Dylid gwahanu'r elfennau â nodau tanlinell ("\_").

Bydd enw'r ffeil yn gwahaniaethu ychydig yn ôl elfennau'r data a ffynhonnell y ffeil.

Bydd yn ofynnol i **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth eu hawdurdod lleol** at ddibenion adnoddau dynol a'r gyflogres ddychwelyd ffeiliau gwahanol ar gyfer modiwlau data eu hysgol a modiwlau awdurdodau lleol.

- a) Dyma enghraifft o ffeil Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar gyfer datganiad **ysgol** ar gyfer y modiwlau data a gwblheir gan ysgolion:

**6602050\_SWC\_660SC24\_001.XML**

- b) Dyma enghraifft o ffeil Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** ar gyfer y modiwlau data a gwblheir gan awdurdodau lleol:

**6609100\_SWC\_660LA24\_001.XML**

- c) Dyma enghraifft o ffeil Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** gan **ysgol sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth awdurdod lleol** o ran adnoddau dynol/y gyflogres ar gyfer y modiwlau data a gwblheir gan **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth**:

---

<sup>3</sup>Caiff y dynodydd tarddiad ei lunio ar sail y **rhif AALI** 3 digid a'r **rhif sefydliad** 4 digid, gan greu'r rhif ysgol/sefydliad 7 digid.

<sup>4</sup>Ar gyfer data'r CBGY, nodir "SWC" yn enw'r ffeil.

<sup>5</sup>Yn achos trosglwyddo data o ysgolion i awdurdodau lleol fel rhan o ddatganiad **ysgol**, caiff dynodydd pen y daith ei lunio ar sail rhif AALI yr awdurdod lleol sy'n derbyn y data, yna "SC" ac yna "24" i ddynodi dau ddigid olaf y flwyddyn academiaidd. Yn achos trosglwyddo data o awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru (enghreiffiau (b) ac (c) uchod) ar gyfer datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb**, neu o **ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â chael eu rheoli gan lywodraeth leol**, caiff dynodydd pen y daith ei lunio ar sail rhif AALI yr awdurdod lleol/**ysgol sydd wedi penderfynu peidio â chael ei rheoli gan lywodraeth leol** sy'n cyflwyno'r datganiad, yna "LA" ac yna "24".

<sup>6</sup>Y rhif cyfres yw'r fersiwn 3 digid o'r ffeil. "001" yw'r ffeil gyntaf yn y gyfres, "002" yw'r ail ac ati. **Rhaid** i bob ffeil newydd sy'n cael ei chyflwyno fod â rhif cyfres uwch na'r fersiynau sydd eisoes wedi'u lanlwytho.

## **6602050\_SWC\_660LA24\_001.XML**

Ile mae '24' yn dynodi dau ddigid olaf y flwyddyn, ac felly yn briodol i'r cyfrifiad ysgol blyneddol, dyddiedig 05/11/2024.

Cyfanswm nodau enw'r ffeil yw 27. Yn achos ffeiliau sydd heb eu hawdurdodi gan yr ysgol eto, dylid newid yr estyniad ffeil o XML i UNA.

## 11. Cyflwyno'r datganiad drwy DEWi

Ar ôl i'r pennaeth awdurdodi datganiad **ysgol** y CBGY, dylid ei anfon, drwy **DEWi**, ar yr un pryd â'r crynodeb ysgol, i'ch awdurdod lleol. Bydd y broses drosglwyddo'n amrywio o un awdurdod i'r llall, felly cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael y manylion.

Bydd dal rhaid i **ysgolion sydd wedi peidio â bod yn rhan o gytundebau lefel gwasanaeth** at ddibenion adnoddau dynol a/neu'r gyflogres, ddychwelyd y dtaganiad **ysgol** trwy eu awdurdod lleol.

Rhaid cyflwyno eich datganiad CBGY i Lywodraeth Cymru erbyn **18 Rhagfyr 2024**. Bydd pob awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno datganiadau ysgol. Holwch eich awdurdod lleol erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno eich datganiad.

## 12. Rhagor o wybodaeth

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar gwblhau unrhyw ran o ddatganiad y CBGY, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Os oes unrhyw gwestiynau na ellir eu hateb fel hyn, yna dylech chi neu'r awdurdod [gysylltu](#) â Llywodraeth Cymru.

Mae canllawiau llawn ar gwblhau datganiad **cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb** y CBGY ar gael [yma](#).

## Atodiad A: Cyfresi codau datganiadau ysgol

Pwrpas yr atodiad hwn yw rhoi gwybodaeth lawn, hawdd ei deall, am bob un o feysydd data'r CBGY.

Yn yr atodiad hwn, mae pob maes sydd wedi'i nodi yng nghasgliadau CBGY ar gyfer Tachwedd 2024 wedi'i restru, ac mae'r manylion am y maes hwnnw i'w cael mewn fformat safonol. Rhoddir isod esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob rhan o'r templed maes.

### Fformat ar gyfer y meysydd data yn yr atodiad

Enw'r maes	<b>Enw'r maes fel y'i defnyddir yn y ffeil XML a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan eich meddalwedd</b>	Hyd y maes	<b>Hyd y maes yn ôl nifer y nodau</b>
Math o faes	<b>Math o faes [Alffaniwmerig, Niwmerig, Boole neu Ddyddiad]</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pa fathau o ysgolion sy'n gorfod llenwi'r adran hon?</b>

Rheswm Gwybodaeth ynghylch pam fod angen y data hyn a sut caiff y data eu defnyddio.

Cofnodion dilys Rhestr o'r gwerthoedd, a disgrifiadau ohonynt, y gellir eu dychwelyd o fewn y maes data.

**Sylwer:** dyma'r gwerthoedd sydd eu hangen yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei chyflwyno a gallent fod yn wahanol i'r modd y mae'r data'n cael eu cyflwyno i chi gan eich meddalwedd.

Nodiadau Data enghreifftiol: **Enghraifft**

Unrhyw nodiadau amrywiol, a manylion pellach, yn ogystal ag esiampol o ddata dilys y gellir eu cyflwyno yn y maes a lle y gellir dod o hyd iddynt.



## Manylion yr arolwg

---

Enw'r maes	<b>Math o arolwg</b>	Hyd y maes	<b>5</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm            I'w gwneud yn glir pa arolwg sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru

Cofnodion dilys    **SWAC**

---

Nodiadau:            Data enghreifftiol: **SWAC**

Mae'r eitem ddata hon yn nodi i ba arolwg y mae'r datganiad yn perthyn. Dylai system gwybodaeth reoli yr ysgol nodi **SWAC** yn y maes hwn yn awtomatig.

---

## Manylion yr arolwg

---

Enw'r maes	<b>Cyfeirnod dyddiad yr arolwg</b>	Hyd y maes	<b>10</b>
Math o faes	<b>Dyddiad</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi'r dyddiad pan gwblhawyd yr arolwg

Cofnodion dilys Dyddiad cyflwyno'r arolwg i Lywodraeth Cymru

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **2024-11-05**

Y dyddiad pan dynnwyd y data ar fformat **CCBB-MM-DD**.  
Dylai system gwybodaeth reoli eich ysgol nodi **2024-11-05** (5 Tachwedd 2024) yn awtomatig.

---

## Manylion yr arolwg

---

Enw'r maes	<b>Y person sy'n cwblhau'r arolwg</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi pwy gwblhaodd yr arolwg

Cofnodion dilys	<b>HT</b> Pennaeth
	<b>AC</b> Pennaeth dros dro
	<b>DH</b> Dirprwy bennaeth
	<b>AS</b> Pennaeth cynorthwyol
	<b>QT</b> Athro cymwysedig arall
	<b>AO</b> Aelod staff gweinyddol arall
	<b>BM</b> Rheolwr busnes ysgol neu swydd gyfatebol
	<b>ON</b> Arall
	<b>LA</b> Aelod staff awdurdod lleol

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **BM**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau effaith casgliadau data ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Caiff gwybodaeth am bwy gwblhaodd yr arolwg a'r amser a gymerwyd i'w gwblhau ei defnyddio i adolygu'r arolwg yn rheolaidd i sicrhau bod y baich ar ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael ei gadw i'r lefel isaf bosibl er mwyn cynnal ansawdd eu hallbynnau. Defnyddir yr wybodaeth hon i roi adroddiad i'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(SYG\)](#) fel rhan o [Restr Arolygon Ystadegol y Llywodraeth Ar-lein](#).

---

## Manylion yr arolwg

---

Enw'r maes	<b>Amser a dreuliwyd yn cwblhau'r arolwg</b>	Hyd y maes	<b>3</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi sawl awr a dreuliwyd gan y gwahanol grwpiau o staff a gyfrannodd yn cwblhau'r arolwg.

Cofnodion dilys Nifer dilys yr oriau

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **5**

Y grwpiau dilys o staff fel y rhestrir uchod.

O dan bob pennawd priodol, nodwch gyfanswm yr amser a dreuliwyd yn cyfrannu at ddatganiad y CBGY, gan ei dalgrynnu i'r awr gyfan agosaf.

---

## Dynodyddion ysgol

---

Enw'r maes	<b>Rhif yr AALI</b>	Hyd y maes	<b>3</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi pa awdurdod lleol y mae'r ysgol sy'n dychwelyd y datganiad yn gysylltiedig ag ef.

Cofnodion dilys Yn cynnwys tri digid yn yr ystod:

- 660** Ynys Môn
  - 661** Gwynedd
  - 662** Conwy
  - 663** Sir Ddinbych
  - 664** Sir y Fflint
  - 665** Wreccsam
  - 666** Powys
  - 667** Ceredigion
  - 668** Sir Benfro
  - 669** Sir Gaerfyrddin
  - 670** Abertawe
  - 671** Castell-nedd Port Talbot
  - 672** Pen-y-bont ar Ogwr
  - 673** Bro Morgannwg
  - 674** Rhondda Cynon Taf
  - 675** Merthyr Tudful
  - 676** Caerffili
  - 677** Blaenau Gwent
  - 678** Torfaen
  - 679** Mynwy
  - 680** Casnewydd
  - 681** Caerdydd
- 

Nodiadau Data enghreifftiol: **660**

---

## Dynodyddion ysgol

---

Enw'r maes	<b>Rhif yr ysgol</b>	Hyd y maes	<b>4</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi'r ysgol sy'n dychwelyd y datganiad.

Cofnodion dilys Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystod:

<b>1000 – 1099</b>	Ysgolion meithrin
<b>1100 – 1199</b>	Unedau Cyfeirio Disgyblion
<b>1900 – 1999</b>	EOTAS (defnyddiwyd cyn 2010 - gweler 9000)
<b>2000 – 2999</b>	Ysgolion cynradd cymunedol
<b>3000 – 3299</b>	Ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir
<b>3300 – 3399</b>	Ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir
<b>4000 – 4499</b>	Ysgolion uwchradd cymunedol
<b>4500 – 4599</b>	Ysgolion uwchradd gwirfoddol a reolir
<b>4600 – 4699</b>	Ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir
<b>5200 – 5299</b>	Ysgolion cynradd sefydledig
<b>5400 – 5499</b>	Ysgolion uwchradd sefydledig
<b>5500 – 5699</b>	Ysgolion canol cymunedol
<b>5700 – 5799</b>	Ysgolion canol sefydledig
<b>5800 – 5899</b>	Ysgolion canol gwirfoddol a reolir
<b>5900 – 5999</b>	Ysgolion canol gwirfoddol a gynorthwyir
<b>6000 – 6999</b>	Ysgolion annibynnol
<b>7000 – 7999</b>	Ysgolion arbennig
<b>9000</b>	EOTAS
<b>9100</b>	Ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cwblhau datganiad data <b>cyflog, adnoddau dynol ac absenoldeb</b> CBGY yn unig.

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **4099**

Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystodau priodol a nodir uchod. Mae'n hanfodol bod rhif yr AALI a rhif yr ysgol yn gywir ac wedi'u diweddarau. Os bydd unrhyw gamgymeriad (yn cynnwys rhoi hen werth ar y naill god neu'r llall) mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthod derbyn eich datganiad.

---

## Dynodyddion ysgol

---

Enw'r maes	<b>Enw'r ysgol</b>	Hyd y maes	<b>100</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I adnabod yr enw cywir ar gyfer yr ysgol sy'n anfon y datganiad er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys Enw llawn yr ysgol

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **Ysgol Gyfun Ynys Môn**

Edrychwch [yma](#) am yr enw presennol a gedwir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eich ysgol.

---

## Manylion yr ysgol

---

Enw'r maes	<b>Cyfnod yr ysgol</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob ysgol</b>

---

Rheswm I nodi'r cyfnod addysg a gynigir gan ysgolion prif ffrwd.

Cofnodion dilys	<b>NS</b>	Ysgol feithrin
	<b>PS</b>	Ysgol gynradd
	<b>SS</b>	Ysgol uwchradd
	<b>SP</b>	Ysgol arbennig
	<b>MS</b>	Ysgol ganol
	<b>PR</b>	Uned Cyfeirio Disgyblion

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **SS**

---



## Dynodyddion ysgol

Enw'r maes	<b>Categori Iaith yr Ysgol</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>PS/SS/MS</b>

Rheswm I ddisgrifio statws yr ysgol fel ysgol Gymraeg, Saesneg neu Ddwyieithog yn unol â set o werthoedd wedi'u diffinio.

Cofnodion dilys

- C1** Ysgol/darpariaeth cyfrwng Saesneg
- T2** Ysgol/darpariaeth cyfrwng Saesneg neu rheiny gyda chyfran uchel o ddarpariaeth Cymraeg sy'n trosi i fod yn ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) dros amser
- C2** Ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg)
- T3** Ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) sy'n trosi i fod yn ysgol/darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser
- C3** Ysgol/darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- CP** Ysgol/darpariaeth uwchradd benodedig cyfrwng Cymraeg

Nodiadau Data enghreifftiol: **C3**

Dylai ysgolion gyfeirio at gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru isod ar gategoriâu ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyhoeddwyd yn 2021 i weld disgrifiad llawn o'r ddarpariaeth ar gyfer pob categori.

[Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg](#)

Bydd y mwyafrif o ysgolion yng nghategori 1 cyfrwng Saesneg neu gategori 3 cyfrwng Cymraeg. Oni bai eu bod wedi cytuno'n wahanol gyda'r awdurdod lleol, dylai ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg nodi'r categori cyfatebol o dan y trefniadau newydd.

Gall ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel ysgolion dwyieithog: 2A, 2B, 2C neu 2D, neu Saesneg â chyfran sylweddol o'r Gymraeg, neu Gymraeg â chyfran sylweddol o Saesneg, yng nghategori 2, 3 neu un o'r categorïau trosiannol (T2 a T3).

Fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, dylai ysgolion sydd wedi'u nodi gyda photensial i gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg fod mewn

ymgyngoriad gyda'r awdurdod lleol i edrych ar gategori iaith yr ysgol.

Mae ysgolion cynradd a chanol yn gallu cofnodi mwy nag un categori i adlewyrchu eu darpariaeth yn gywir (e.e. ysgolion dwy iaith neu ysgolion canol sydd newydd gyfuno).

---

## Dynodyddion y gweithlu

Enw'r maes	<b>Rhif cyfeirnod athro</b>	Hyd y maes	<b>7</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Yr holl staff addysgu cymwysedig</b>

Rheswm a roddwyd I gofnodi rhif cyfeirnod unigryw'r athro (TRN) ar gyfer pob aelod o staff sydd â rhif.

Cofnodion dilys Y rhif TRN dilys 7 nod ar gyfer yr aelod o staff.

Nodiadau Data enghreifftiol: **5963274**

Dyma rif TRN unigryw, sydd hefyd yn cael ei alw'n rif EWC (Cyngor y Gweithlu Addysg). Ar gyfer yr aelodau o staff sydd â rhif TRN, mae'n ddynodydd unigryw. Mae'n **rhaid** i bob athro cymwysedig gael rhif TRN.

Dyma'r rhif a roddir i:

- athrawon sydd â Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- pobl sy'n dechrau eu blwyddyn olaf neu eu hunig flwyddyn o hyfforddiant athrawon;
- pobl sy'n gweithio tuag at SAC drwy gynlluniau hyfforddi ar sail cyflogaeth;
- y rheini sydd heb SAC ond sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Athrawon.

Rhif 7 digid fydd y rhif TRN. Sicrhewch mai'r rhif saith digid cywir yn unig sy'n cael ei roi.

Os oes gen yr aelod o staff Rif Athro o Gymru neu Loegr, dylid nodi'r rhif hwn. **Ni** ddylid nodi'r canlynol:

- Rhif Athro o'r Alban;
- Rhif Athro o Ogledd Iwerddon;
- rhifau athro o wledydd tramor; a
- rhifau ffug fel 0000001, rhifau dros dro neu 'TBC'.

Os na ellir darparu rhif o Gymru neu Loegr, dylid gadael y maes yn wag.

Rhaid dileu nodau fel '/' ac ni ddylid eu cynnwys yn y ffeil XML. Dylid defnyddio nodau rhifiadol yn unig. **Ni** ddylid cynnwys unrhyw nodau arbennig, bylchau na nodau alffa.

Dylai unrhyw werthoedd anrhifiadol gael eu dileu'n awtomatig gan eich meddalwedd MIS wrth dynnu'r data.

Os nad oes rhif wedi'i nodi ar gyfer unigolyn mewn rôl addysgu, bydd gwall yn cael ei greu yn **DEWi**, a bydd angen ysgrifennu nodyn yn erbyn yr ymholiad i egluro pam na chyflwynwyd rhif TRN.

Rhaid i ysgolion wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y rhifau TRN a ddarperir. Os na ellir cael rhif cywir, dylid cadw'r eitem ddata'n wag. Bydd y rhif TRN yn cael ei ddefnyddio i gysylltu data o'r datganiadau **ysgol a chyflog, Adnoddau Dynol ac absenoldeb**.

Os yw athro yn gweithio mewn sawl ysgol, **rhaid** i bob ysgol nodi'r rhif TRN; gweler adran 6 ar gofnodion lluosog ar gyfer un aelod o staff.

---

## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Cyfenw</b>	Hyd y maes	<b>35</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi'r cyfenw cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys Y cyfenw llawn y mae'r ysgol yn credu ei fod yn gyfenw i'r aelod staff.

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **Jones**

**Rhaid** cofnodi'r cyfenw llawn.

Dylai cyflogwyr fod wedi dilysu enwau eu staff fel rhan o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os mai trydydd parti sy'n darparu staff, dylai eu hunaniaeth fod wedi'i gwirio. **Ni** ddylid cynnwys enwau cyntaf nac enwau canol yn y maes hwn.

---

## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Enw cyntaf</b>	Hyd y maes	<b>35</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I adnabod enw cyntaf pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys Enw cyntaf llawn, heb ei dalfyrru a heb nodi fersiynau eraill.

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **Marc**

Rhaid nodi'r enw cyntaf llawn, heb eu talfyrru a heb nodi fersiynau eraill. Gall cyflenwyr a defnyddwyr ddefnyddio maes 'a adnabyddir fel' yn lleol, ond nid yw'r adran yn casglu'r wybodaeth hon gan fod safoni ar sail yr enw cyfreithiol yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer paru data. **Peidiwch** â chynnwys enwau canol na chyfenwau yn y maes hwn.

---

## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Enw(au) canol</b>	Hyd y maes	<b>35</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I adnabod yr enw(au) canol cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys Enw(au) canol llawn, heb ei dalfyrru/eu talfyrru a heb nodi fersiynau eraill.

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **Iwan Owen**

Enw(au) canol llawn yr aelod o staff.

**Ni** ddylid talfyrru'r enw(au) canol na nodi fersiynau eraill. Gellir nodi mwy nag un enw canol ar gyfer pob aelod o staff. **Ni** ddylid cynnwys enwau cyntaf na chyfenwau yn y maes hwn.

---

## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Rhyw</b>	Hyd y maes	<b>1</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I adnabod y rhyw cywir ar gyfer pob aelod o'r gweithlu er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys **M** Gwryw  
**F** Benyw

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **M**

I nodi rhyw person yn unol â'r gyfraith, fel y defnyddir ar dystysgrif geni neu dystysgrif cydnabod rhywedd (ar gyfer unigolion dros 18 oed ac sydd wedi byw yn eu rhywedd caffaeledig am fwy na dwy flynedd), gan ddefnyddio M neu F fel yr opsiynau dilys.

---



## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Dyddiad geni</b>	Hyd y maes	<b>10</b>
Math o faes	<b>Dyddiad</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I adnabod y dyddiad geni cywir ar gyfer pob aelod o staff er mwyn cadw cofnodion cyfoes.

Cofnodion dilys Dyddiad ar ffurf **CCBB-MM-DD**.

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **1990-03-31**

Dyma ddyddiad geni'r aelod staff gan ddefnyddio'r fformat **CCBB-MM-DD** (er enghraifft, ar gyfer 31 Mawrth 1990 = 1990-03-31). **Rhaid** i ysgolion nodi'r dyddiad geni cywir ar gyfer yr aelod staff. Defnyddir dyddiadau geni i baru data'r cyfrifiad o'r systemau gwybodaeth gwahanol (h.y. system IMS yr ysgol a systemau cyflogres ac Adnoddau Dynol) ac o flynyddoedd gwahanol, ac felly mae'n bwysig bod y data hyn yn gywir ym mhob system.

---

## Dynodyddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Rhif yswiriant gwladol</b>	Hyd y maes	<b>9</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd Cofnodi rhifau yswiriant gwladol y gweithlu.

Cofnodion dilys Y rhif yswiriant gwladol 9 nod dilys ar gyfer yr aelod staff.

Rhaid i'r rhif yswiriant gwladol bodloni'r gofynion canlynol:

- rhaid i'r 2 nod cyntaf fod yn lythyrennau;
  - rhaid i nodau 3 i 8 fod yn rhifol;
  - rhaid i'r nod olaf fod yn A, B, C, D neu bwlch;
  - ni all y nod cyntaf fod yn D, F, I, Q neu U; a
  - ni all yr ail nod fod yn D, F, I, O, Q, U neu V.
- 

Nodiadau Data enghreifftiol: **JP235491D**

Rhaid nodi rhifau yswiriant gwladol ar gyfer pob aelod o staff yn y datganiad. Dylai ysgolion wneud pob ymdrech i sicrhau y gellir darparu rhif yswiriant gwladol ar gyfer pob aelod o staff.

Defnyddir y maes hwn at ddibenion paru ac ar gyfer olrhain unigolion dros amser er mwyn gallu cynhyrchu ystadegau ar hyd gwasanaeth, trosiant staff etc. Bydd gadael y maes yn wag yn creu gwall a bydd angen ychwanegu nodyn i'r datganiad i egluro pam na ddarparwyd rhif yswiriant gwladol. Ni cheir nodi rhifau dros dro.

Os yw athro yn gweithio mewn sawl ysgol, rhaid i bob ysgol nodi'r eitem hon, gweler adran 6.5 ar gofnodion lluosog ar gyfer gyfer un aelod o staff.

---

## Priodoleddau'r gweithlu

Enw'r maes	<b>Cod ethnig</b>	Hyd y maes	<b>4</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

Rheswm a roddwyd I nodi'r grŵp ethnig y mae aelod o staff yn uniaethu ei hunan ag ef.

Cofnodion dilys Cod dilys ar gyfer cefndir ethnig fel y nodir yn [atodiad B](#) y ddogfen hon.

Nodiadau Data enghreifftiol: **WBRI**

Dyma ethnigrwydd yr aelod o staff gan ddefnyddio'r cod a nodir yn [atodiad B](#). Mae'r set godau hon yr un peth â'r set a ddefnyddir yn CYBLD.

Mae angen ymdrin â data ynghylch ethnigrwydd mewn modd sensitif. Y prif bwynt yw y dylai data am ethnigrwydd gael eu darparu gan y staff eu hunain. Gallant ddewis peidio â'u darparu, ond **dylid** gofyn amdano bob amser. Felly, ceir opsiynau yn y set godau ar gyfer "gwrthod rhoi gwybodaeth" a "ni chafwyd yr wybodaeth", a **rhaidd** cwblhau'r eitem ddata hon bob amser ar gyfer CBGY.

Cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd er mwyn rhoi sylfaen gadarnach i'r gwaith o fonitro ethnigrwydd ar lefel leol a chenedlaethol, a hefyd i wella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael am gefndir ethnig y gweithlu a sicrhau bod yr wybodaeth honno mor gyflawn â phosibl.

## Nodweddion y gweithlu

Enw'r maes	<b>Statws o ran anabledd</b>	Hyd y maes	<b>4</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

Rheswm a roddwyd I nodi'r aelodau o'r gweithlu sydd ag anabledd.

Cofnodion dilys	<b>YES</b>	Oes
	<b>NO</b>	Nac oes
	<b>NOBT</b>	Ni chafwyd yr wybodaeth
	<b>REFU</b>	Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth

Nodiadau Data enghreifftiol: **NO**

Mater i ysgolion yw penderfynu sut orau i gasglu'r wybodaeth hon a mater i'r staff eu hunain yw penderfynu a ydynt am ddatgan bod ganddynt gyflyrau neu salwch corfforol neu iechyd meddwl sy'n para neu y mae disgwyl iddynt bara 12 mis neu fwy.

Bydd yn bwysig rhoi sicrwydd i staff y caiff yr wybodaeth y maent yn ei datgelu ei thrin mewn modd sensitif a chyfrinachol a'i defnyddio i wella'r cyfleoedd a'r canlyniadau ar eu cyfer nhw. Mae [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Penodol\) 2011](#), a adnabyddir gan amlaf fel "dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus", a ddaeth i rym o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#), yn berthnasol i 45,000 o gyrff cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig. Pwrpas y ddyletswydd yw sicrhau bod pob corff cyhoeddus - megis y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, ysgolion, ymddiriedolaethau iechyd neu'r gwasanaethau brys - yn rhoi sylw dyledus i wella cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl ym mhob agwedd ar eu gwaith. Gwnaeth y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) gynhyrchu ystod o wybodaeth am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Dylai gwybodaeth am anabledd gael ei darparu gan y staff eu hunain a gallant ddewis peidio â'i rhoi. Felly, ceir opsiynau yn y set godau ar gyfer "gwrthod rhoi gwybodaeth" a "ni chafwyd yr wybodaeth", er y **dylid** gofyn amdano bob amser.

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Hunaniaeth genedlaethol</b>	Hyd y maes	<b>3</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi'r grŵp cenedlaethol y mae'r aelod o'r gweithlu'n uniaethu ei hunan ag ef.

Cofnodion dilys

- WAL** Cymreig
- ENG** Saesneg
- SCO** Albanaidd
- IRE** Gwyddelig
- BRI** Prydeinig
- OTH** Arall
- REF** Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth
- NOS** Ni chafwyd yr wybodaeth

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **BRI**

Mae'r maes hwn ar gyfer nodi'r grŵp cenedlaethol y mae'r aelod o'r gweithlu'n uniaethu ei hunan ag ef.

Ceir opsiynau yn y set godau Hunaniaeth Genedlaethol ar gyfer 'Gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth' a 'Ni chafwyd yr wybodaeth'. Felly, gellir rhoi gwrthrych y data yn un o'r categorïau hyn, ond **rhaid** nodi gwerth dilys yn y maes hwn.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Statws athro cymwysedig (SAC)</b>	Hyd y maes	<b>1</b>
Math o faes	<b>Boole</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi p'un a oes gan aelod o staff Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Cofnodion dilys **1** Cywir  
**0** Anghywir

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **1**

Mae angen yr eitem ddata hon ar gyfer pob aelod o staff yn y datganiad ac mae'n nodi p'un a oes ganddynt SAC ai peidio. Nid yw'r ffaith bod gan berson rif TRN o reidwydd yn golygu bod ganddynt SAC. Gall athrawon heb SAC fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Dyddiad SAC</b>	Hyd y maes	<b>10</b>
Math o faes	<b>Dyddiad</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob unigolyn sydd â SAC</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi ar ba ddyddiad y cafodd yr unigolyn QTS.

Cofnodion dilys **CCBB-MM-DD**

---

Nodiadau: Data enghreifftiol: **2017-07-30**

Dyma'r dyddiad y dyfarnwyd SAC i'r person. Dim ond ar gyfer y cofnodion hynny lle nodwyd **1** (cywir) ar gyfer y maes SAC y mae angen yr eitem ddata hon.

---

## Nodweddion y gweithlu

Enw'r maes	<b>Y llwybr SAC</b>	Hyd y maes	<b>4</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pob aelod o staff sy'n athro cymwysedig</b>

Rheswm a roddwyd I nodi pa lwybr a ddilynodd person i ennill QTS.

Cofnodion dilys	<b>ITEU</b>	Addysg Gychwynnol Athrawon – Cwrs gradd
	<b>ITEP</b>	Addysg Gychwynnol Athrawon – Cwrs ôl-radd
	<b>OTTP</b>	Rhaglen Athrawon a Hyfforddwyd Dramor
	<b>RTPR</b>	Rhaglen Athrawon Cofrestredig
	<b>GTPR</b>	Rhaglen Athrawon Graddedig
	<b>TFST</b>	Rhaglen Teach First
	<b>RECG</b>	Cydnabyddiaeth Gilyddol o Ogledd Iwerddon, yr Alban neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
	<b>FLEX</b>	Llwybrau hyblyg
	<b>OTTN</b>	Athro a Hyfforddwyd Dramor, ddim ar y rhaglen eto
	<b>SCD</b>	School Direct
	<b>SCDS</b>	School Direct (gyda chyflog)
	<b>ACEG</b>	Ymadawiad Coleg Blynyddol – Cwrs graddedig
	<b>ACEP</b>	Ymadawiad Coleg Blynyddol – Cwrs ôl-raddedig

Nodiadau Data enghreifftiol: **ITEU**

Mae'r eitem hon yn dangos pa lwybr a gymerodd person i ennill SAC, fel y nodwyd yn y set godau yn [atodiad D](#). Dim ond ar gyfer y cofnodion hynny lle nodwyd 1 (cywir) ar gyfer y maes QTS y mae angen yr eitem ddata hon.

Rhaid rhoi'r cod **OTTP** ar gyfer athrawon sy'n dilyn y Rhaglen Athrawon a Hyfforddwyd Dramor. Fodd bynnag, rhaid rhoi'r cod **OTTN** (ar gyfer Athrawon a Hyfforddwyd Dramor, ddim ar y rhaglen eto) ar gyfer athrawon a hyfforddwyd dramor ond nad ydynt wedi cofrestru ar y rhaglen eto.



## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Statws cynorthwydd addysgu lefel uwch (CALU)</b>	Hyd y maes	<b>1</b>
Math o faes	<b>Boole</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi a oes gan aelod o staff statws cynorthwydd addysgu lefel uwch (CALU).

Cofnodion dilys **1** Cywir  
**0** Anghywir

---

Nodiadau: Data enghreifftiol: **0**

Mae hyn yn nodi a yw aelod o staff wedi ennill statws CALU ai peidio.

Os oes gen berson statws CALU ond nad yw'n gweithio fel CALU ar hyn o bryd, dylid nodi'r statws fel **1** (cywir). Mae statws CALU yn cyfeirio at berson sydd wedi cael achrediad CALU yn hytrach na ph'un a yw'n gweithio fel CALU ar hyn o bryd ai peidio. I ennill statws CALU, caiff unigolyn ei asesu er mwyn sicrhau ei fod ef/hi yn bodloni'r safonau CALU.

Mae angen nodi statws CALU ar gyfer pob athro a chynorthwydd addysgu sydd yn y datganiad.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Statws cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer prifathrawiaeth yng Nghymru (CPCP)</b>	Hyd y maes	<b>1</b>
Math o faes	<b>Boole</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi a oes gan aelod o staff y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru (CPCP).

Cofnodion dilys **1** Cywir  
**0** Anghywir

---

Nodiadau: Data enghreifftiol: **0**

Mae hyn yn nodi a oes gan yr aelod staff Gymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru (CPCP). Dylid nodi **1** (cywir) ar gyfer pob athro, cynorthwydd addysgu a staff eraill a gyflogir gan yr ysgol sydd â CPCP waeth beth yw ei rôl bresennol.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Dyddiad CPCP</b>	Hyd y maes	<b>10</b>
Math o faes	<b>Dyddiad</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Pawb sydd â CPCP</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi'r dyddiad y dyfarnwyd CPCP i'r unigolyn

Cofnodion dilys **CCBB-MM-DD**

---

Nodiadau: Data enghreifftiol: **2013-04-30**

Y dyddiad y cafodd y person ei CPCP. Dylid darparu'r wybodaeth hon ar gyfer pob person y nodwyd **1** (cywir) ar eu cyfer ar gyfer CPCP.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Gallu yn y Gymraeg</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi gallu pob aelod o staff yn y Gymraeg.

Cofnodion dilys	<b>W1</b> Dim sgiliau Cymraeg
	<b>W2</b> Lefel Mynediad
	<b>W3</b> Lefel Sylfaen
	<b>W4</b> Lefel Ganolradd
	<b>W5</b> Lefel Uwch
	<b>W6</b> Lefel Hyfedr
	<b>W7</b> Ni chafwyd yr wybodaeth eto

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **W1**

I nodi sgiliau iaith Gymraeg yr aelod staff, a fesurwyd yn erbyn y [Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysgu](#).

Dylai pob aelod o'r gweithlu hunanasesu eu sgiliau yn unol â'r fframwaith a chytuno ar lefel gyda'i reolwr llinell.

Bydd y data yn galluogi ysgolion, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i gwell dealltwriaeth o sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr er mwyn gallu cynllunio dysgu proffesiynol i sicrhau datblygiad sgiliau yn unol â'r Safonau Proffesiynol priodol.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Addysgu neu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi p'un a yw pob aelod o staff yn addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

Cofnodion dilys	<b>T1</b>	Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol
	<b>T2</b>	Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn y swydd bresennol
	<b>T3</b>	Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
	<b>T4</b>	Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig

---

Nodyn Data enghreifftiol: **T2**

I nodi a yw'r unigolyn yn defnyddio'r Gymraeg yn ei waith o ddydd i ddydd yng nghyd-destun yr ysgol.

Dylid nodi hyn ar gyfer pob aelod o'r gweithlu ysgol gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill.

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Statws</b>	Hyd y maes	<b>3</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi unigolion sydd ar absenoldeb hirdymor o'r ysgol.

Cofnodion dilys **MPA** Cyfnod Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu  
**SEC** Secondiad allan o'r ysgol  
**SAB** Cyfnod Sabothol  
**OTH** Arall

---

Nodyn Data enghreifftiol: **MPA**

I nodi os yw'r unigolyn ar (neu'n disgwyl i fod ar) absenoldeb hirdymor o'r ysgol am dymor neu fwy (e.e. cyfnod mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu, secondiad, sabothol).

Dylid nodi unigolion sy'n absennol o'r ysgol am gyfnod o mwy na tymor am unrhyw rheswm arall (e.e. gwaharddiad, salwch hirdymor ayyb) fel 'OTH' (Arall).

Pwrpas yr eitem data hon yw i osgoi goramcangyfrif niferoedd pan yn cyhoeddi ffigurau cyfrif pen ac i leihau y nifer o wallau dilysu sy'n cael eu tanio yn DEWi (e.e. cofnodion cwricwlwm col lar gyfer athrawon cymwysedig sydd cyfnod mamolaeth).

---

## Nodweddion y gweithlu

---

Enw'r maes	<b>Staff Trydydd Parti</b>	Hyd y maes	<b>1</b>
Math o faes	<b>Boole</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi unigolion nad sydd wedi'u cyflogi trwy'r awdurdod lleol.

Cofnodion dilys **1** Cywir  
**0** Anghywir

---

Nodyn Data enghreifftiol: **1**

I nodi os yw'r unigolyn wedi'i gyflogi trwy ffurf arall i'r awdurdod lleol (e.e. trwy asiantaeth cyflenwi neu sefydliad arall sy'n darparu cymorth i ysgolion)..

Pwrpas yr eitem data hon yw i leihau y nifer o wallau dilysu sy'n cael eu tanio yn DEWi sy'n cymharu cofnodion yn y data CBGY Ysgol yn erbyn y data CBGY Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb.

---

## Rolau

Enw'r maes	<b>Rôl y staff</b>	Hyd y maes	<b>2</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

---

Rheswm a roddwyd I nodi'r rôl/rolau a gyflawnir gan bob aelod o staff.

Cofnodion dilys Cyfeiriwch at [atodiad D](#).

---

Nodiadau Data enghreifftiol: **HT**

Rhaid nodi o leiaf un rôl ar gyfer pob aelod o staff. Os oes gan berson mwy nag un rôl mewn ysgol, rhaid nodi pob un o'r rolau hyn.

Mae'r rhestr o rolau (gweler [atodiad D](#)) yn cynnwys **prif** rolau (e.e. pennaeth, athro cymwysedig, ymarferydd arweiniol, cynorthwydd addysgu lefel uwch) y mae'n rhaid nodi un ohonynt o leiaf ar gyfer pob aelod unigol o staff a'r oriau contract bob wythnos.

Ar gyfer pob aelod o staff, dylid hefyd nodi unrhyw rolau ychwanegol (**dewisol**) (e.e. pennaeth adran, pennaeth blwyddyn, cydlynnydd ADY, goruchwyliwr llanw) a gyflawnir fel rhan o'i brif rôl. Nid oes angen nodi'r oriau ar gyfer y rolau hyn.

Dylid defnyddio'r dangosydd ar gyfer rôl pennaeth gweithredol ar gyfer pennaeth sy'n arwain dwy neu fwy o ysgolion yn uniongyrchol mewn ffederasiwn neu drefniant partneriaeth arall.

Dylid pennu'r rôl 'staff cymorth disgyblion sydd o gefndir lleiafrif ethnig' i athrawon sy'n addysgu disgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, a dylid pennu'r rôl 'staff cymorth ieithyddol' i athrawon sy'n addysgu'r Saesneg fel iaith dramor.

Mae'r rhestr codau yn cynnwys 2 cod gwahanol ar gyfer cofnodi cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol – un fel 'Prif rôl ac un fel rôl 'Ychwanegol'. Dylid ddefnyddio'r cod 'SP'(Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ar gyfer unigolion sy'n gwneud y gwaith fel ei prif rôl)) os mae cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yw prif rôl yr unigolyn o fewn yr ysgol a rhaid nodi amser 'cyfwerth ag amser llawn' ar gyfer y rôl.

---



Dylid ddewis y cod 'SC' (Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (fel rôl ychwanegol i brif rôl yr unigolyn) lle mae'r rôl cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei ymgymryd gan unigolyn yn ychwanegol i'w pif swydd arferol. Er enghraifft, lle'r pennaeth yw'r cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd. Yn yr enghraifft yma, dylid ddewis y cod 'HT' fel 'Prif' rôl yr unigolyn ynghyd a'r gwerth cyfwerth ag amser llawn, â'r rôl ychwanegol 'SC' wedi'i ddewis hefyd.

Os nad yw rolau'r staff wedi'u cynnwys yn y set godau, dewiswch y rôl sy'n adlewyrchu agosaf swyddogaeth yr unigolyn. Er enghraifft, byddai'r dynodydd ar gyfer rôl y pennaeth yn briodol ar gyfer y prifathro. Os nad oes modd canfod rôl briodol, efallai na ddylid cynnwys y staff hyn yn y CBGY. Er enghraifft, clerc y corff llywodraethu, hebryngwyr croesfannau ysgol a glanhawyr. Os nad ydynt yn gallu dod o hyd i rôl ar gyfer staff, gallai'r ysgolion gysylltu â'u hawdurdod lleol yn y lle cyntaf i wirio a ddylai'r staff hyn gael eu cynnwys yn y datganiad.

O dan [adran 67](#) o [Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014](#), mae disgwyl i bob ysgol gael cydlynnydd ADY a rhaid adlewyrchu hyn yn y datganiad. Bydd ymholiad yn cael ei greu os nad yw rôl y cydlynnydd ADY wedi'i gynnwys yn natganiad **ysgol** a bydd angen ychwanegu nodyn at y datganiad i egluro pam nad yw'r rôl hon wedi'i chynnwys.

---

## Rolau

Enw'r maes	<b>Cyferwerth ag amser llawn</b>	Hyd y maes	<b>5</b>
Math o faes	<b>Alffaniwmerig</b>	Gorfodol ar gyfer	<b>Y gweithlu cyfan</b>

Rheswm a roddwyd I adlewyrchu'r nifer oriau gweithio yr wythnos fel cyfran o'r oriau cyferwerth ag amser llawn.

Cofnodion dilys **9.99**

Nodiadau: Data enghreifftiol: **0.88**

Mae'n hanfodol bod y cyfanswm ar gyfer staff sydd wedi'u cyflogi'n llawn amser yn hafal i 1.00. Os yw oriau yr wythnos yr unigolyn yn fwy na'r oriau cyferwerth ag amser llawn dylid gofnodi'r cymhareb cyferwerth ag amser llawn yn 1.00.

Dylid rhannu y cymhareb cyferwerth ag amser llawn ar draws y holl 'Prif' rolau i adlewyrchu'r gwaith mae unigolion yn eu wneud yn yr ysgol. Gall y ffordd mae'r gwerth cyferwerth ag amser llawn yn cael ei gyfrifo amrywio yn dibynnu ar y swydd. Yn gyffredinol, bydd hyn yn seiliedig ar wythnos llawn o 32.5 awr ar gyfer athrawon, a'u gwerth cyferwerth ag amser llawn wedi'u cyfrifo fel eu oriau contract wedi'i rhannu â 32.5.

Ar gyfer rolau penodol eraill lle mae'r unigolion yn gweithio i oriau contract gwahanol, dylid gyfrifo eu gwerth cyferwerth ag amser llawn yn seiliedig ar y nifer o oriau maent yn gweithio fel canran o'r oriau ar gyfer swydd llawn amser ar gyfer ei rôl mewn wythnos ysgol, ac heb gymryd i ystyriaeth y nifer o wythnosau mae ei contract nodi i'w weithio mewn blwyddyn.

Os yw unigolyn yn gweithio amserlen patrwm gwaith dros pythefnos dylai'r cymhareb cyferwerth ag amser llawn adlewyrchu'r rolau ar gyfer y 2 wythnos gyfan. Er enghraifft, os mae'r unigolyn yn gweithio 2 ddiwrnod yn wythnos 1 a 3 diwrnod yn wythnos 2 dylai'r cymhareb cyferwerth ag amser llawn ddangos 0.50 (2.5 diwrnod yr wythnos).

Os yw unigolyn yn gweithio mewn mwy nag un ysgol gwahanol mae angen i bob ysgol ddychwelyd y data yma gan adlewyrchu'r amser mae'r unigolyn yn gwario ym mhob ysgol, gweler y nodyn ar staff yn gweithio mewn mwy nag un ysgol.

Oherwydd hyn, mae'n bosib bydd cyfanswm cymhareb cyferwerth ag amser llawn unigolyn yn data'r ysgol yn wahanol

i'r cymhareb cyfwerth ag amser llawn yn erbyn ei contract yn y data CBGY Cyflog, Adnoddau Dynol ac Absenoldeb. Felly, nid oes unrhyw ddilysiadau ar y cymharebau cyfwerth ag amser llawn yn y ddau rhan o'r casgliad.

Cymhareb cyfwerth ag amser llawn	Ar gyfer athrawon: Oriau contract yr wythnos (llawn amser = 32.5)	Rolau penodol eraill
0.10	3.25	Cyfwerth â 0.5 diwrnod yr wythnos.
